Swyddfa'r Prif Weinidog

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Mehefin 2019

Annwyl ,

ATISN 13151

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 9 Mai am bapur i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar ddefnydd mewnol y Gymraeg o fewn y sefydliad. Roedd eich e-bost yn nodi'ch cais am:

Copi o fersiwn diweddaraf papur ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg ar gyfer Bwrdd Llywodraeth Cymru.

Rwyf wedi penderfynu fod yr wybodaeth wedi'i eithrio gan adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth (y Ddeddf), ac felly yn cael ei ddal yn ôl. Mae'r rhesymau dros gymhwyso'r esemptiad yma wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Atodiad 1

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Gwybodaeth a gedwir yn ôl	Rhif yr adran ac enw'r esemptiad
Copi o fersiwn diweddaraf papur ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg ar gyfer Bwrdd Llywodraeth Cymru.	**Adran 36(2)(b)(ii) – '*Free and frank exchange of views for the purposes of deliberation'***

Gweithredu Adran 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylid rhyddhau'r papur y gofynnoch amdano.

Mae ystod esemptiad adran 36 yn eang, ac mae'r Ddeddf yn cyflwyno proses dau gam pan ystyrir ei ddefnyddio er mwyn diogelu rhag cam ddefnydd ohono gan awdurdod cyhoeddus. Mae Cam 1 yn ei le er mwyn penderfynu a ydy'r amodau sylfaenol yn eu lle er mwyn sbarduno gweithredu'r esemptiad. Dyma rôl y 'person cymwys' ac mae adran 36 yn nodi mai Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol yw'r personau cymwys hynny mewn perthynas â Llywodraeth Cymru. Wedi i'r person cymwys ystyried yr wybodaeth, os ydy'r person cymwys yn llunio barn resymol na fydd yr effeithiau andwyol yn codi (neu'n debygol o godi) wrth ddatgelu'r wybodaeth, yna ni ellir cadw'r wybodaeth yn ôl o dan adran 36.

Os ydy'r person cymwys yn penderfynu y bydd yr wybodaeth yn cael yr effaith andwyol a nodir, neu'n debygol o gael yr effaith andwyol, yna gall Cam 2, sef ystyriaeth o'r prawf buddiannau'r cyhoedd, ddechrau.

Yn yr achos hwn mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi penderfynu y byddai'r effeithiau niweidiol canlynol yn debygol o godi petai'r wybodaeth yn cael ei ryddhau, ac felly mae'r esemptiad a ddarperir gan adran 36(2)(b)(ii) o'r Ddeddf yn cael ei weithredu.

Gweithredu Adran 36(2)(b)(ii) – *Free and frank exchange of views for the purposes of deliberation*

Mae Adran 36(2)(b)(ii) yn cynnig esemptiad rhag datgelu gwybodaeth lle byddai'n debygol o lesteirio rhannu safbwyntiau mewn modd agored a gonest fel rhan o'r broses ystyriaeth.

Mae'r papur a gyflwynwyd i Fwrdd Llywodraeth Cymru i'w hystyried yn ddogfen weithredol, fewnol. Pwrpas y papur oedd sbarduno trafodaeth ar y lefel uchaf o fewn y sefydliad er mwyn, maes o law, gyfrannu at bolisi mewnol ar ddefnydd y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. Ystyrir y polisi hwn fel newid polisi arwyddocaol o fewn y sefydliad ac o ganlyniad mae angen i'r sefydliad gael trafodaeth agored a gonest am y mater, y tu hwnt i lygaid y cyhoedd. Dyma'r cam cyntaf mewn darn sylweddol o waith datblygu polisi mewnol, ac yn ystod y broses dylai swyddogion fod yn gallu cynnig cyngor a chyfnewid barn mewn ffordd onest ac agored.

Mae'n arferiad i swyddogion ddarparu cyngor a chyfnewid barn yn y modd yma. Mae archwilio gwahanol opsiynau, mynegi gwendidau a chanlyniadau posibl unrhyw drywydd polisi (yn wleidyddol neu fel arall) yn rhan o'r broses o ystyried a datblygu polisi. Mae'n cael ei gydnabod a'i dderbyn y dylai Gweinidogion a swyddogion gael amser preifat i feddwl, y tu hwnt i lygaid y cyhoedd a sgriwtini.

Mae'r papur yn ystyried y posibiliadau o ddatblygu polisi newydd yng ngoleuni ymrwymiadau Gweinidogol yn strategaeth y Gymraeg *Cymraeg 2050* ynghyd â dyletswyddau'r Gweinidogion o dan Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr impact posibl ar staff a recriwtio i'r sefydliad. Mae'r papur yn archwilio'r angen i ystyried unrhyw oblygiadau i staff sydd yn deillio o

newid polisi yn ofalus iawn, ac mae hefyd yn trafod yr angen am drafodaeth gwbl agored, y tu hwnt i sgriwtini cyhoeddus.

Mae'n debygol mai dyma'r cam cyntaf mewn darn sylweddol o waith polisi, ac ystod y gwaith hwn dylai swyddogion fod yn gallu darparu cyngor mewn modd agored a gonest. Mae'n arferol i swyddogion rannu safbwyntiau yn y modd yma. Mae'n bur debygol y byddai rhyddhau'r papur yn golygu fod trafodaethau i'r dyfodol yn cael eu llesteirio gan arwain at drafodaethau llai didwyll, a fydd yn ei dro yn arwain at archwiliad llai trwyadl a dwfn o'r materion dan sylw. Byddai rhyddhau'r papur ar y cam yma yn golygu bod risg fod y broses ddilynol o ddatblygu a chytuno'r polisi yn cael ei lesteirio gan y disgwrs cyhoeddus a fyddai'n dilyn rhyddhau'r papur.

Yn fwy cyffredino, mae'r gallu i gael trafodaeth agored a gonest ynghylch opsiynau polisi yn allweddol. Rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth yn debygol o lesteirio trafodaethau o'r fath, ac y byddai hynny yn effeithio ar ddatblygu ein polisi.

Prawf Budd y Cyhoedd, adran 36

Er mwyn bodloni prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r esemptiad yn adran 36(2)(b)(ii), mae gofyn dangos bod y budd i'r cyhoeddo ryddhau'r papur, er yr effaith niweidiol y byddai neu byddai'n debygol o godi, yn cael ei orbwyso gan y buddiannau ehangach i'r cyhoedd o gynnal yr esemptiad. Hynny yw, mae buddiannau'r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn drwy beidio â chaniatáu i'r effaith niweidiol godi.

Dadleuon buddiannau'r cyhoedd o blaid rhyddhau'r wybodaeth - Adran 36(2)(b)(ii)

Byddai rhyddhau'r papur yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd i ddeall yn well rhai o'r materion sydd o dan ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru wrth weithredu ei dyletswyddau o ran y Gymraeg. Yn 2017 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050 - miliwn o siaradwyr*. Nod y strategaeth yw cynyddu nifer y bobl sydd yn siarad Cymraeg yn gyson i 1 miliwn erbyn 2050. Mae gwireddu'r targed hwn yn golygu fod angen newid diwylliant a mabwysiadu polisïau eang. Mae'n weledigaeth uchelgeisiol. Mae gan wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru ran allweddol i chwarae yn cynorthwyo Gweinidogion i gyrraedd y nod. Golyga hyn nid yn unig ddatblygu polisïau i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Cymru ond hefyd arwain y ffordd fel cyflogwr sector gyhoeddus bwysig yn y wlad. Yn ogystal mae budd cyhoeddus mewn sicrhau fod dogfennau llywodraethol allweddol ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd er mwyn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â gweithgareddau Llywodraeth Cymru.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth - Adran 36(2)(b)(ii)

Mae datblygu polisi llywodraeth, hyd yn oed polisi mewnol, yn dibynnu ar y gallu i dderbyn y cyngor gorau posibl. Mae hefyd yn dibynnu ar gyfleoedd i drafod opsiynau gwahanol heb effeithio ar allu swyddogion i gynnig cyngor agored a gonest ("the provision of free and frank advice"). Gan fod y polisi dan sylw yn dal i fod yn y cam datblygol, byddai rhyddhau'r cyngor hwnnw ddim o reidrwydd yn rhoi'r argraff gywir o'r polisi terfynol a fydd yn cael ei fabwysiadu gan y sefydliad. Nid yw hi o fudd i'r cyhoedd i ddrysu'r mater drwy ryddhau gwybodaeth all arwain at greu disgwyliadau camarweiniol ymysg y cyhoedd. Bydd y polisi terfynol yn darparu eglurder ar y mater, ond mae rhyddhau gwybodaeth yn gynamserol yn debygol o arwain at ddryswch, ac mae hyn o ganlyniad yn groes i fudd y cyhoedd.

Mae buddiannau cyhoeddus mewn darparu gofod diogel i ddatblygu a thrafod polisi, y tu hwnt i lygaid y cyhoedd. Gall safon y polisi terfynol hefyd gael ei effeithio os rhyddheir gwybodaeth cyn iddo fod yn ei ffurf derfynol, a fydd yn ei dro yn lansio disgwrs cyhoeddus cynamserol ar y mater.

Cydbwyso buddiannau'r cyhoedd – Adran 36

Rydyn ni wedi cydbwyso'r dadleuon buddiannau'r cyhoedd, ac wedi dod i'r casgliad, yn yr achos hwn, fod y budd cyhoeddus a ddaw o osgoi niwed i'r materion sydd yn dod o dan adain yr esemptiad a nodir uchod yn gwrthbwyso'r budd cyhoeddus mewn rhyddhau'r papur. Gallai rhyddhau'r papur, yn ein barn ni, lesteirio'r broses o ddatblygu polisi i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru. Golyga hyn fod rhyddhau'r papur, yn ein barn ni, yn groes i fuddiannau pobl Cymru .